Arweinyddiaeth

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Mae arweinyddiaeth yr heddlu'n allweddol o ran galluogi llu i fod yn effeithiol, effeithlon a chyfreithlon. Fe wnaeth yr arolygiad hwn ganolbwyntio ar sut mae llu'n deall, datblygu ac arddangos arweinyddiaeth trwy ei ddatblygiad sefydliadol.

Mae Heddlu De Cymru wedi gweithio gyda'i swyddogion a staff i ddatblygu ei ddisgwyliadau ynghylch arweinyddiaeth, ac mae'r rhain yn cael eu deall ar bob lefel trwy gydol y sefydliad. Gall y llu weithredu'n adeiladol i ymdrin ag unrhyw broblemau ynghylch arweinyddiaeth. Mae rhaglen strwythuredig ar gyfer hyfforddiant arweinyddiaeth ag ystod o gyfleoedd datblygu ar gael i swyddogion heddlu a staff o bob rheng a gradd, ac mae gan y llu gronfa eang o uwch-arweinwyr posibl. Gallai'r llu wneud rhagor i ddeall ei sgiliau a chapasiti trwy gydol y sefydliad, er bod ei gynlluniau ar gyfer proses newydd i adolygu datblygu perfformiad yn gam cadarnhaol.

Mae'r llu'n rhagweithiol o ran ceisio syniadau ac arferion gweithio newydd gan heddluoedd eraill a sefydliadau o'r tu allan i'r heddlu, tra bod ei raglen welliant parhaus yn annog staff i gyflwyno awgrymiadau a syniadau. Byddai'r llu'n elwa o ddod â'i holl arferion da at ei gilydd yn ganolog i un lle ar gyfer staff. Mae'r llu wedi cynyddu'n llwyddiannus y nifer o recriwtiaid swyddog heddlu sy'n fenyw a'r rhai hynny o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig (BAME), ond mae angen rhagor o waith i ddatblygu timau arwain sy'n amrywiol o ran rhyw ac ethnigrwydd yn ogystal â chefndir a sgiliau. Nid oes digon o swyddogion benyw yn rhengoedd canol ac uwch y llu.